

# Polisi Amgylcheddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru



Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n sicrhau bod yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sy'n ofynnol ar gyfer gweithrediad effeithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu darparu. Ein nod yw bod yn sefydliad enghreifftiol o ran cynaliadwyedd, a sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithlon, gan roi sylw dyledus i'r egwyddor o hyrwyddo datblygiad cynaliadwy.

Caiff ein gwaith o ddydd i ddydd effaith ar yr amgylchedd, a hynny, yn bennaf, drwy ddefnyddio adnoddau (cyfleustodau a deunyddiau crai), drwy deithio a thrwy gynhyrchu gwastraff.

Mae Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i:

- Sicrhau y caiff ein hadeiladau eu defnyddio'n effeithlon, a chwilio am gyfleoedd i leihau'r defnydd o adnoddau naturiol wrth ddarparu ein gwasanaethau, gan gynnwys plastigion untro.
- Neilltuo amser ac adnoddau priodol i wella effeithlonrwydd ein hystâd wrth ddefnyddio ynni.
- Hyrwyddo ein rhinweddau o ran cynaliadwyedd i'r cyhoedd, ein hymwelwyr a rhanddeiliaid eraill.
- Sicrhau bod pob Aelod Cynulliad, eu staff cymorth, staff y Comisiwn a defnyddwyr eraill ein hadeiladau yn deall yn llwyr y cyfraniad y gallant ei wneud i wella ein perfformiad amgylcheddol.
- Datblygu diwylliant o gyfrifoldeb amgylcheddol ymysg defnyddwyr ein hadeiladau, ein contractwyr, ein cyflenwyr a'r ymwelwyr â'n hadeiladau .
- Osgoi teithio diangen lle bo modd ac annog staff ac ymwelwyr i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy.
- Gofalu bod ystyriaethau cynaliadwyedd wrth wraidd prosesau tryloyw o wneud penderfyniadau, gan gynnwys caffael cynhyrchion a gwasanaethau.
- Cynllunio, addasu a sicrhau bod adnoddau/camau digonol ar waith i sicrhau bod ein hasedau yn cael eu diogelu at y dyfodol yn erbyn heriau a ddaw yn sgil hinsawdd sy'n newid.
- Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a'r safonau amgylcheddol perthnasol a chyfrifoldebau cydymffurfio eraill.
- Cynnal y weithdrefn a'r camau ffisegol fel ei gilydd i warchod yr amgylchedd, gan gynnwys drwy atal llygredd.
- Cefnogi a hybu bioamrywiaeth o amgylch ein hystâd.
- Gosod amcanion a thargedau amgylcheddol uchelgeisiol heriol, i sicrhau ein bod yn gwella'n barhaus, a nodi cynnydd o ran yr amcanion hyn yn gyhoeddus;

Mae'r datganiad polisi hwn yn berthnasol i ystâd y Cynulliad drwyddi draw (gan gynnwys Tŷ Hywel, y Senedd, y Pierhead a swyddfa Bae Colwyn). Caiff ei adolygu bob blwyddyn a bydd ar gael ar ein gwefan i holl staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac unrhyw un arall sydd â diddordeb, ei weld. Bydd yn rhan o gontract cyflenwyr a chontractwyr sy'n defnyddio ein safle, a bydd ar gael i unrhyw un sy'n gwneud cais i'w weld.

**David J Rowlands AC**  
Comisiynydd Diogelwch a  
Adnoddau'r Cynulliad

**Manon Antoniazzi**  
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad